Beth ydy lwfansau cyfrifoldebau addysg a dysgu?

1. Yr amcan wrth ddisodli lwfansau rheoli a chyflwyno taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu yw cynnig cymorth i athrawon a phenaethiaid wrth iddynt ganolbwyntio ar eu rôl sylfaenol sef addysgu ac arwain addysgu a dysgu. Gwna hyn drwy gymryd oddi arnyt tasgau lle nad oes angen eu sgiliau ac arbenigedd proffesiynol a thrwy gyfeirio'r taliadau at y tasgau hynny y mae angen i ysgolion eu cyflawni er mwyn rheoli'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol a chodi safonau.

Y trefniadau newydd

2. O ganlyniad i hynny, cafodd Education (School Teachers' Pay and Conditions) (No.2) Order 2005 ei wneud ar 4 Ebrill a fydd yn golygu newidiadau i Ddogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Cyflogaeth Athrawon Ysgol 2004 a fydd yn effeithio ar Gymru a Lloegr:-

- ni chaniateir dyfarnu lwfansau rheoli newydd i athrawon dosbarth ar ôl 31 Rhagfyr 2005
- o 1 Ionawr 2006 ymlaen, gall cyrff perthnasol ddyfarnu taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu i athrawon dosbarth
- mae darpariaeth i ddiogelu tâl Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu am gyfnod penodol hyd at 3 blynedd os yw'r corff perthnasol yn penderfynu wedi hynny i dynnu'r taliad yn ôl neu ei leihau yn dilyn adolygiad o'i bolisi cyflogau neu strwythur staffio neu fel arall
- o 1 Ionawr 2006 ymlaen os na thelir tâl Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu a fydd yn gyfatebol o ran ei werth i'r lwfans rheoli yna caiff ei ddiogelu tan 31 Rhagfyr 2008 fan bellaf
- mae darpariaeth i ddiogelu cyflogau athrawon a delir ar y golofn gyflog arweinyddiaeth (gan gynnwys y pennaeth) neu ar y golofn gyflog athrawon uwch-sgiliau, os bydd yr ystodau cyflog perthnasol yn cael eu lleihau neu os bydd swyddi'n cael eu gwaredu neu eu hailddynodi o ganlyniad i newidiadau i bolisi cyflog neu strwythur staffio ysgol. Am uchafswm o 3 blynedd y cânt eu diogelu.

3. Derbyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau hefyd, yn achos Lloegr, argymhelliad yr STRB ei bod yn ofynnol i ysgolion adolygu eu strwythur staffio gan ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr, ac i gyhoeddi eu strwythur diwygiedig erbyn 31 Rhagfyr 2005. Cynigiodd yr STRB hyn er mwyn i ysgolion ystyried goblygiadau'r ffordd fwyaf effeithiol o ddisodli'r system bresennol o lwfansau rheoli â thaliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu. Serch hynny, fe'i gwnaed yn glir yn Natganiad Seneddol yr Ysgrifennydd Gwladol ar 22 Chwefror 2005 mai mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw cyflwyno'r gofyniad i ysgolion adolygu eu strwythurau staffio, oherwydd bod y sylfaen gyfreithiol ar gyfer cyflwyno gofyniad o'r fath yn wahanol i faterion cyflog ac yn bŵer datganoledig.

Cynllun Athrawon Rhagorol

4. Cafodd argymhelliad yr STRB, sef y bydd ysgolion yng Nghymru a Lloegr, o 1 Medi 2006 ymlaen, yn gallu penodi athrawon i'r Cynllun Athrawon Rhagorol (ETS) ei dderbyn hefyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

5. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu bod yn gysylltiedig ag adolygu materion technegol sy'n ymwneud â chyflog mewn perthynas â strwythurau staffio ysgolion, megis y meini prawf ar gyfer Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu, oherwydd nad yw cyflogau athrawon yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Dim ond am broses yr adolygiad

y mae'r Cynulliad yn gyfrifol. O ran canllawiau cyflog penodol, mae'r pecyn cymorth a ddarparwyd gan y Grŵp Gwobrwyon a Chymhellion a'r Adran Addysg a Sgiliau ar gael i ysgolion yng Nghymru a Lloegr ac y mae hefyd ar gael ar wefan Teachernet drwy'r linc a ddarparwyd yn yr adran 'Dogfennau Cysylltiedig' ar y clawr.

6. Caiff y canllawiau ar y cynigion ar gyfer y cynllun Athrawon Rhagorol, a chyflwyno'r tâl Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu i ddisodli'r lwfansau rheoli presennol, ynghyd â chanllawiau tâl eraill eu cyhoeddi yn y ffordd arferol gan yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer ysgolion ac AALlau yng Nghymru. Serch hynny, efallai y bydd ysgolion yn dymuno ystyried a fydd ganddynt unrhyw swyddi o dan y Cynllun Athrawon Rhagorol fel rhan o'r adolygiad.

Yr amserlen

7. Nid yw'r canllawiau yn ceisio pennu amserlen fanwl ar gyfer ysgolion. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r adolygiad ddod i ben erbyn 31 Mawrth 2006 fan hwyraf, er y gall ysgoliojn gwblhau eu hadolygiadau yn gynt na'r dyddiad cau os ydynt yn gwbl hyderus y gallant wneud hynny'n effeithiol, gan fodloni'u dyletswyddau statudol a thalu sylw i'r canllawiau hyn. Awgrymir y dylai'r ysgolion, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod, gychwyn ar y broses ar unwaith drwy gynnal trafodaethau gyda'r corff llywodraethu, hysbysu pob aelod o staff a chynrychiolwyr yr undebau bod yr adolygiad ar fin cychwyn; ac ystyried y strwythur staffio. Amgrymir hefyd na ddylai'r broses ymgynghori ffurfiol am yr adolygiad gychwyn ar ôl 1 Ionawr 2006.

Y Camau Cyntaf

8. Mae'r Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 yn rhoi dyletswydd ar gyrff perthnasol (cyrff llywodraethu mewn perthynas ag ysgolion sydd â chyllideb ddirprwyiedig, ac ar AALlau mewn perthynas ag ysgolion heb gyllideb dirprwyedig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU)) adolygu strwythurau staffio pob ysgol neu Uned Cyfeirio Disgyblion a pharatoi, erbyn 31 Rhagfyr 2005, cynllun ar gyfer rhoi unrhyw newidiadau sy'n codi o'r adolygiad ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2008. Yn y cyd-destun hwn, wrth ysgol a gynhelir fe olygir ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol; ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig; ac ysgol feithrin a gynhelir.

9. Nid yw'r ddyletswydd sydd ar gyrff llywodraethu i gynnal yr adolygiad o'r strwythurau staffio yn effeithio ar egwyddorion cyffredinol a swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu a phenaethiaid a amlinellir yn Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000.

10. Rhaid cynnal yr adolygiadau gyda'r nod o sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol wrth reoli a defnyddio holl staff yr ysgol a dyrannu cyfrifoldebau iddynt ac yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu er mwyn codi safonau. Rhaid ymgynghori â'r holl staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur cydnabyddedig yn ystod yr adolygiad. Mae dyletswydd ar Benaethiaid i gynghori a helpu'r corff perthnasol wrth gynnal yr adolygiad a pharatoi cynllun gweithredu.

Cyfrifoldeb yr AALl am Athrawon Digyswllt

11. Mae nifer o'r AALlau yn gyfrifol am athrawon digyswllt sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaethau canolog o dan delerau'r Ddogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol. Er nad yw'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i AALlau adolygu strwythur staffio y gwasanaethau hyn bydd hi'n bwysig cynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod y gwaith ailfodelu wedi symud ymlaen a hefyd oherwydd y bydd nifer o'r staff eisoes yn derbyn lwfansau rheoli.

12. Bydd rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'i ddarpariaeth ar gyfer athrawon digyswllt oherwydd o'r 1 Ionawr 2006 ymlaen bydd y taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu yn gallu dechrau disodli'r lwfansau rheoli, ac yng nghyd-destun strwythur staffio y corff perthnasol yn unig y gellir eu dyfarnu (ac yn unol â'i bolisi cyflogau).

Swyddogaeth y Pennaeth

13. Er mai y corff perthnasol sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am gynnal yr adolygiad, yn ymarferol bydd y penaethiaid yn arwain yr adolygiadau yn yr ysgolion ar eu rhan. Byddant hwy, efallai yn ei gweld hi'n ddefnyddiol i fedru cael gafael ar gyngor arbenigol yn ystod yr adolygiad - er enghraifft, gan fwrsar yr ysgol, cynghorwyr cwricwlwm ac adnoddau dynol yr AALl, aelodau unigol o staff, gan gynnwys aelodau o'r grŵp arwain, llywodraethwyr ysgol sydd â'r cymwysterau proffesiynol perthnasol, etc. Bydd y broses yn cynnwys y corff llywodraethu, athrawon, staff cymorth a chynrychiolwyr o'r undebau llafur cydnabyddedig.

Egwyddorion Arfer Dda

14. Bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r strwythur staffio ar gyfer yr holl staff. Dylai'r adolygiad fod yn berthnasol i'r ysgol gyfan ac ni ddylai fod yn ymarfer cymhathu (h.y nid disodli'r hen lwfansau rheoli gyda'r taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu newydd yn unig). Mae'r adolygiad yn gyfle i ddatblygu cyd-weledigaeth gyda staff ac undebau llafur ar gyfer strwythur i'r dyfodol a fydd yn sicrhau addysg a dysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion.

15. Bydd y Cynllun Gwella Ysgolion yn ddogfen allweddol ar gyfer yr adolygiad. Dylai'r strwythur staffio diwygiedig sicrhau'r gallu i gyflawni blaenoriaethau addysgu a dysgu yr ysgolion.

16. Wrth gynnal yr adolygiad bydd o ddefnydd i'r penaethiaid ddilyn nifer o egwyddorion arferion da syml. Mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n awgrymu rhai dogfennau allweddol i'w helpu yn y broses adolygu. Mae nifer o'r dogfennau hyn wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio, yn enwedig y Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005, dogfennau'r Adran Addysg a Sgiliau ar gyflogau gan gynnwys yn y Gorchymyn Cyflogau, y canllawiau statudol diwygiedig ar gyflogau, y nodiadau esboniadol diwygiedig ar y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol, a'r polisi cyflog enghreifftiol diwygiedig, y datganiad cyflog enghreifftiol a'r canllawiau mewn perthynas â diogelu (maent oll ar gael ar wefan yr Adran Addysg a Sgiliau, sef www.teachernet.gov.uk)

17. Rhaid pwysleisio mai'r broses adolygu ei hun sydd angen ei chwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2005. Mae gan ysgolion dair blynedd yn dilyn hynny i wneud unrhyw newidiadau i'w strwythur staffio o ganlyniad i'r adolygiad gofynnol; ac nid oes raid iddynt ddechrau cyflwyno taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu ar 1 Ionawr 2006 ond yn hytrach yn eu hamser eu hunain o fewn y tair blynedd a bennwyd. Bydd proses yr ysgolion ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r strwythurau staffio a chyflwyno taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu yn gysylltiedig â' pha mor gyflym y daw'r lwfansau rheoli i ben yn eu hysgolion gan gymryd i ystyriaeth trosiant staff a diogelu.

18. Gan nad oes un strwythur staffio sy'n addas ar gyfer anghenion pob ysgol, nid yw'r canllawiau hyn yn darparu templed neu strwythur enghreifftiol; ac ni fyddai'n briodol gwneud hynny chwaith. Bydd rhaid i bob ysgol edrych ar ei strwythur newydd a'i addasu gan roi sylw i'w hanghenion a'i hamgylchiadau ei hunan. Serch hynny, dylai pob ysgol roi sylw i'r canlynol wrth gwblhau'r adolygiad:

- y Cynllun Gwella Ysgolion a'r blaenoriaethau a'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol a nodwyd ynddo, canfyddiadau'r adroddiadau perthnasol gan Estyn, hunanwerthusiadau'r ysgol a safbwyntiau'r staff ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella;
- y graddau y cafodd y newidiadau i'r cytundeb sy'n deillio o'r Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith eu rhoi ar waith a'r strategaethau a roddwyd yn eu lle er mwyn galluogi'r ysgol i symud ymlaen â'r gwaith o ailstrwythuro'r gweithlu ehangach: a'r
- ffaith bod yr adolygiad yn cwmpasu pob rôl a chyfrifoldeb drwy gydol yr ysgol.

Y Broses Ymgynghori

19. Unwaith y bydd y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad wedi ei bennu, dylai'r pennaeth gyhoeddi bod yr adolygiad ar fin dechrau drwy ysgrifennu at bob aelod o staff (addysgu a chymorth) ar ran y corff llywodraethu, a'r undebau llafur cydnabyddedig i ddweud :

- beth yw diben a chwmpas yr adolygiad;
- at bwy y dylid anfon ymholiadau am y broses;
- beth fydd amserlen y broses, yn cynnwys yr amserlen ar gyfer ymgynghori a dyddiadau cyfarfodydd y cyrff llywodraethu er mwyn:
    - ystyried a chymeradwyo'r strwythur drafft a'r cynllun gweithredu ar gyfer yr ymgynghoriad;
    - derbyn adborth oddi wrth y broses ymgynghori a chymeradwyo fersiwn terfynol neu ddiwygiedig o'r strwythur a'r cynllun gweithredu; a
    - rhoi mwy o ystyriaeth i'r strwythur os bu'n rhaid gwneud diwygiadau sylweddol;
- y dyddiadau y bydd rhaid derbyn ymatebion ysgrifenedig i'r broses ymgynghori (dylid rhoi isafswm o 4 wythnos i staff ac undebau llafur gyflwyno'u sylwadau ar y strwythur drafft a'r cynllun gweithredu); a'r
- y trefniadau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd i'w cynnal gyda'r staff a'r undebau llafur yn ystod yr adolygiad.

20. Yn y llythyr, dylai'r pennaeth wahodd pob un o'r undebau cydnabyddedig i enwebu un person y gellir cysylltu ag ef/hii gychwyn. Gall fod yn berson allanol hyd yn oed os oes ganddynt gynrychiolydd achredig ar staff yr ysgol eisoes. Dylai penaethiaid ac unrhyw gynghorwyr arbenigol sy'n cydweithio â hwy cadw copi o'r holl ohebiaeth y maent yn eu hanfon a chadw cofnod o'r dyddiad dosbarthu.

23. Ynghyd ag ysgrifennu at y staff a'r undebau cydnabyddedig, dylai'r pennaeth ystyried galw cyfarfod gyda'r staff a chynrychiolwyr yr undeb, naill ai gyda'i gilydd, neu ar wahân, er mwyn eu cynghori am y broses a'r amserlenni arfaethedig.

24. Wrth roi rhan i'r staff a'r undebau llafur cydnabyddedig yn y datblygiadau ac ymgynghori â hwy dylai'r broses fod yn haws i'w rheoli. Dylai, nid yn unig leihau'r achosion o gamwybodaeth a chamddealltwriaeth, ond hefyd dylai helpu i hyrwyddo morâl da rhwng y staff a'u hysgogi.

25. Dylai'r pennaeth gofio hefyd y bydd angen lle priodol ac amser ar y staff unigol i drafod goblygiadau'r strwythur staffio diwygiedig gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a bydd angen eu cynnwys yn y broses. Dylai'r penaethiaid fod yn barod i ganiatáu lle ac

amser i'r cynrychiolwyr o'r undebau llafur cydnabyddedig gael cyngor ac ymgynghori'n eang gyda'u haelodau yn gynnar iawn yn y broses. Yr undebau sydd i benderfynu pwy fydd yn eu cynrychioli yn y gweithgareddau ymgynghori. Gall fod yn berson allanol hyd yn oed os oes ganddynt gynrychiolydd a enwebwyd ar staff yr ysgol eisoes.

26. Bydd gan rai ysgolion ddulliau ymgynghori wedi'u sefydlu eisoes. Pan fyddant yn cynnwys yr holl undebau llafur cydnabyddedig, fe allai'r dulliau hyn, pe bai'r undebau yn cytuno, gael eu defnyddio i lywio'r broses ymgynghori gyfan. Yn yr achos hwn, bydd rhaid i'r AALl roi ystyriaeth i'r ffaith y bydd angen mwy o amser ar gyfer adnoddau.

27. Ar adegau pan fydd yr AALl yn rheoli'r adolygiad, fel y corff perthnasol ar gyfer ysgol heb gyllideb dirprwyedig ac ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, dylai ddilyn yr un prosesau a ddisgrifiwyd yn y canllawiau hyn. Yn achos yr Unedau Cyfeirio Disgyblion, dylid newid y cyfeiriadau at y pennaeth i gyfeirio at yr athro sydd â gofal.

Cynllunio'r strwythurau newydd

28. Unwaith y bydd ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol wrth law ac wedi cynnal y trafodaethau cychwynnol, bydd angen i benaethiaid lunio strwythur staffio a chynllun gweithredu drafft i'w cyflwyno i'r corff llywodraethu er mwyn iddynt eu cymeradwyo fel sail i'w ymgynghoriad.

29. Mae'r broses yn gyfle i adolygu strwythur staffio yr ysgol gyfan er mwyn pennu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o arwain a rheoli'r addysgu a'r dysgu. Dylai adlewyrchu canlyniadau'r gwaith diwygio ehangach o rolau unigol yr athrawon a staff cymorth fel rhan o strategaeth yr ysgol i ddiwallu gofynion y Cytundeb Cyffredinol: Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith. Bydd y cynnydd y mae'r ysgolion wedi'i wneud, neu'n bwriadu ei wneud o ran
ad-drefnu'r gweithlu, gan gynnwys y cydweithio rhwng y staff dysgu a'r staff cynnal, a nifer y staff cymorth sydd i'w cynnwysl yn y tîm arwain (os oes yna rai) yn berthnasol yma.

30. I gychwyn, dylai'r pennaeth roi ystyriaeth i'r amcanion a'r egwyddorion eang y mae'r ysgol yn ceisio'u cyflawni gyda'r strwythur newydd. Dylent roi ystyriaeth i'r egwyddor o gael athrawon cymwysedig i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu, yn hytrach nag ar faterion sy'n fwy priodol ar gyfer y staff cymorth yn yr ysgol.

31. Dylai'r egwyddorion a bennwyd gan yr ysgol adlewyrchu a chydweddu'r darpariaethau statudol a'r Cytundeb Cenedlaethol: Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith, yn hytrach na'u gwrth-ddweud neu eu newid. Dylid dosbarthu'r egwyddorion yn yr ysgol, a'u trafod mewn cyfarfodydd staff neu dîm cyn dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r strwythur manwl.

Trefnau ar gyfer ysgolion sy'n aildrefnu neu'n cael eu cyfuno

32. Mae'n rhaid i ysgolion sydd ar fin cael eu had-drefnu neu eu huno o'r 1 Medi 2006 ymlaen (neu hyd yn oed cyn neu ar ôl y dyddiad hwnnw) gynnal adolygiad o'u strwythurau staffio erbyn 31 Rhagfyr 2005. Serch hynny, mewn ysgolion sydd â chyllidebau a ddirprwywyd, bydd y cyrff llywodraethu sy'n gorffen a'r penaethiaid presennol eisiau ymgynghori â'r corff llywodraethu cysgodol newydd a'r darpar bennaeth newydd, ynghyd â'r undebau llafur cydnabyddedig, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythurau staffio a luniwyd erbyn 31 Rhagfyr 2005 (i ddod i rym o'r 1 Ionawr 2006) yn cyfaddawdu unrhyw strwythurau newydd sy'n deillio o'r ad-drefnu neu'r uno.

33 Ar adegau pan fydd pennaeth yr ysgol yn newid yn ystod y cyfnod adolygu, bydd rhaid i'r pennaeth presennol a'r pennaeth newydd fod yn gysylltiedig â'r broses adolygu.

Materion sy'n mennu ar y broses

34. Wrth ddatblygu'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft, dylai penaethiaid ac unrhyw gynghorwyr arbenigol sy'n eu cynghori ystyried nifer o ffactorau i lunio'u gwaith, er enghraifft:

- blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella;
- yr egwyddorion sy'n sail i'r adolygiad; a'r
- cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran ad-drefnu'r gweithlu, gan gynnwys y cyfrifoldebau sydd fwyaf addas ar gyfer y staff cymorth.

35. Bydd y dasg bwysicaf yn cynnwys mapio blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, gyda'r egwyddorion cyffredinol y trafodwyd eisoes gyda staff, ar nifer o swyddi amrywiol ar wahanol raddfeydd a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol mor effeithiol ac mor effeithlon â phosibl.

Materion cyllid

36. Bydd gwybodaeth ariannol yn chwarae rhan ganolog wrth benderfynu ar ystod a ffurf y strwythur newydd. O ganlyniad felly, bydd y penaethiaid yn dymuno cael asesiad mor realistig â phosibl o'r adnoddau ariannol sy'n debygol o fod ar gael iddynt yn y cyfnod pontio o dair blynedd.

37. Bydd prisio'r strwythur diwygiedig o ganlyniad i'r adolygiad gofynnol yn rhan hanfodol o'r broses. Wrth asesu hyn bydd angen i'r penaethiaid gymryd i ystyriaeth nifer y swyddi maent yn dymuno'u cael yn y strwythur a chost pob un ohonynt, er enghraifft arweiniad, Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu, Athrawon Rhagorol a staff cymorth. Efallai y bydd AALlau yn gallu helpu ysgolion i amcangyfrif costau'r gyllideb yn y dyfodol.

Materion cyfleoedd cyfartal

38. Dylai'r adolygiad roi ystyriaeth i ystyriaethau cyflogau cyfartal er mwyn osgoi heriau cyfreithiol posibl gan unigolion yn y dyfodol. Bydd yr AALl yn gallu cynghori ysgolion mewn perthynas â'r mater.

39. Mae'r adolygiad o'r strwythur staffio cyfan yn rhoi cyfle i ysgolion nid yn unig gyflwyno strwythur sy'n adlewyrchu anghenion presennol yr ysgol ac anghenion y dyfodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu, ond hefyd, fynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau hanesyddol yn y strwythur. Mae nifer o ddewisiadau gan Benaethiaid er mwyn llunio'r strwythur staffio drafft fel y gwelir yn y blwch canlynol.

Swyddi yn y strwythur newydd

Bydd angen i'r penaethiaid benderfynu a fyddant eisiau ***grŵp arwain*** ac os ydynt beth fydd maint y grŵp a phwy fydd yn aelodau ohono, ynghyd â sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau yn cydweddu'r swyddi eraill yn y strwythur yn hytrach na'u dyblygu.

Bydd angen i'r penaethiaid benderfynu a fydd ganddynt daliadau ***Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu*** ac os bydd, sawl un. Wrth benderfynu ar y cyfrifoldebau fydd yn denu taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu rhaid iddynt roi ystyriaeth i'r maen prawf a'r ffactorau yn y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol a'r canllawiau statudol. Er mwyn penderfynu ar werth y swyddi sydd â thaliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu bydd angen i'r penaethiaid ystyried swmp gwaith y swydd; dylai swyddi sydd â'r un swmp gwaith fod â'r un gwerth. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer derbyn tâl Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu 1, rhaid i swydd fodloni'r maen prawf a'r holl ffactorau. Serch hynny, nid yw bodloni'r maen prawf a'r holl ffactorau yn golygu y caiff y swydd ei graddio fel swydd sydd â thâl Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu 1 yn syth. Dylai gwahanol werthoedd y Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu adlewyrchu'n gywir y gwahanol bwysau o ran gwaith yng nghyd-destun yr ysgol.

Fel y gwelir gyda swyddi eraill yn y strwythur newydd, gellir cyflwyno'r taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu bob yn dipyn, gan gyflwyno rhai ohonynt cyn eraill.

Byddai angen i unrhyw bennaeth sy'n penderfynu bod swydd *Athro Uwch-Sgiliau* yn hanfodol ystyried a ellid cwrdd â'r lefel gyflog briodol ac a fyddai'r swydd yn ategu'r strwythur staffio. Ceir gwybodaeth am swyddi Athrawon Uwch-Sgiliau ar wefan Teachernet yr Adran Addysg a Sgiliau, www.teachernet.gov.uk/ast.

Disgwylir i'r ***Cynllun Athrawon Rhagorol*** fod yn weithredol o fis Medi 2006 ymlaen. Wrth adolygu'r strwythur staffio cyfan, bydd gan y penaethiaid gyfle i gynnwys un neu ddau o'r swyddi hyn yn y strwythur newydd. Mae'r gofynion ar gyfer y Cynllun Athrawon Rhagorol a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r rôl wedi eu cynnwys yn nodiadau esboniadol y Cynllun Athrawon Rhagorol ar gyfer ysgolion sydd i'w gweld ar wefan Teachernet: http://www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/2005/

Efallai y bydd penaethiaid yn gweld bod athrawon, ar hyn o bryd, yn gwneud tasgau lle nad oes angen sgiliau ac arbenigedd proffesiynol, ond lle bo'r angen i wneud y tasgau hynny yn parhau. Felly bydd rhaid i'r ***staff cymorth*** wneud y tasgau hynny. Wrth wneud y penderfyniadau hyn bydd rhaid i'r penaethiaid gyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd gan Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu. Mae Nodyn 1 Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu yn nodi'r broses ar gyfer adolygu'r disgrifiadau swyddi a graddfeydd y staff cymorth presennol. Mae'r adolygiad o'r strwythur staffio hefyd yn rhoi cyfle i benaethiaid ystyried datblygu rolau uwch ar gyfer staff cymorth a'u cynnwys yn y tîm reoli uwch.

40. Dyma rai egwyddorion cyffredinol defnyddiol posibl y gallai'r penaethiaid eu hystyried:

- rhaid i'r corff llywodraethu gymeradwyo'r cynigion erbyn 31 Rhagfyr 2005;
- rhaid cwblhau nifer o gamau, gan gynnwys ymgynghori. Byddai'n syniad da cychwyn ar y broses cyn gynted â phosib er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael;
- rhaid pwysleisio nad ymarfer cymathu yw hwn o gwbl.

41. Ar y cyfan bydd ysgolion, ar wahân i ysgolion bach iawn, yn debygol o ddewis strwythur lle ceir nifer o swyddi. Wrth ystyried strwythur posibl yn yr adolygiad gofynnol,

bydd angen i benaethiaid gymryd i ystyriaeth yr holl gyfrifoldebau yr ymgymerwyd â hwy yn y gorffennol, y rhai â thâl a'r rhai heb dâl, ac ystyried y rhai lle bo'r angen amdanynt yn parhau. Ni ddylid seilio strwythur ar y dybiaeth y bydd yr athrawon oedd â chyfrifoldebau heb dâl yn ymwneud ag addysgu a dysgu yn parhau i'w gwneud.

Paratoi disgrifiadau o swydd

42. Unwaith y bydd y penaethiaid wedi penderfynu ar gynnwys y strwythur staffio drafft bydd angen iddynt benderfynu i ba swydd yn y strwythur newydd y dylent benodi aelodau o'r staff presennol. Mae'n hollbwysig fod gan strwythur staffio'r ysgol sail resymegol glir a thryloyw yn ogystal â bod yn deg ar gyfer y rhai sy'n derbyn lwfansau rheoli ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn. Bydd angen disgrifiad swydd drafft ar gyfer pob swydd. Dylai'r disgrifiad swydd gynnwys manylion am:

- ddiben y swydd;
- i bwy y bydd deiliad y swydd yn atebol;
- pwy fydd yn atebol i ddeiliad y swydd;
- y cyfrifoldebau cyffredinol a'r
- cyfrifoldebau sy'n benodol i'r swydd.

43. Gan ddefnyddio'r disgrifiadau swydd drafft i benderfynu, bydd angen i'r pennaeth nodi'n glir (heb osod enwau staff unigol ar gyfer y swyddi ar yr adeg yma):

- pa swyddi yw'r rhai newydd;
- pa swyddi sydd fwy neu lai yr un peth ac o ganlyniad yn cyfateb yn union bron â chyfrifoldeb presennol; a
- pa swyddi sy'n gyfuniad o nifer o wahanol gyfrifoldebau a welwyd yn y strwythur.

44. Bydd trefniadau diogelu cyflogau yn diogelu staff ar bob lefel rhag gweld cwymp sydyn yn eu cyflogau o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig

Penodi gweithwyr i'r strwythur staffio newydd

45. Gyda swyddi newydd dylid dilyn y weithdrefn recriwtio arferol. Serch hynny, ni ddylid rheoli'r broses drwy ddileu swyddi'n orfodol a dylai penaethiaid fod yn ofalus o'r goblygiadau i'r gyllideb o ran hysbysebu'n allanol os bydd y penodiad, dros y cyfnod pontio, yn cynyddu nifer y staff addysgu.

46. Os na fydd rhyw lawer o newidiadau i swydd a'i bod felly'n cyfateb yn union i gyfrifoldebau aelod presennol o staff, yna dylai'r aelod yna gael y swydd honno.

47. Pan fydd swydd yn cyfuno nifer o gyfrifoldebau a gwblheir gan nifer o wahanol staff presennol dylid hysbysebu'r swydd honno i'r aelodau staff o dan sylw a dylid penodi o blith y grŵp hwnnw yn dilyn cyfweliad.

48. Pan welir, o ganlyniad i'r strwythur newydd y bydd rhai swyddogaethau penodol a gwblhawyd yn y gorffennol gan athrawon yn cael eu trosglwyddo i staff eraill, gan gynnwys staff cymorth, bydd rhaid i'r penaethiaid a'r cyrff llywodraethu ystyried yr angen i gyflogi staff ychwanegol, ynghyd ag ystyried cyflog a graddfa pwrpasol ar gyfer unrhyw swyddi newydd. Wrth ddiwygio dyletswyddau'r staff presennol, bydd angen ystyried pa mor addas yw'r rôl, llwyth gwaith, oriau dan gontract, anghenion hyfforddi ynghyd ag adolygu'r cyflog

a'r radd. Rhaid dewis graddfa unrhyw swydd staff cymorth mewn ysgol gymunedol o raddfeydd yr AALl. Dylai AALlau sicrhau bod y graddfeydd (gan gynnwys graddfeydd dros dro pan fo angen) yn eu lle er mwyn hwyluso'r gwaith. Fel arfer bydd y pennaeth a'r aelod staff yn cytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r disgrifiadau swyddi. Rhaid cytuno ar unrhyw estyniad i'r oriau gwaith.

49. Mae'n rhaid i'r ysgol ystyried nifer o opsiynau wrth benderfynu sut i roi'r strwythur newydd ar waith Serch hynny, rhaid i'r trefniadau pontio gynnwys proses a gaiff ei rhoi ar waith yn lleol yn sgil y canllawiau a'r cymorth cenedlaethol.

Amserlen gweithredu

50. Efallai y bydd ysgol yn penderfynu gweithredu'r strwythur newydd bob yn dipyn dros ran benodol o'r cyfnod pontio o dair blynedd, neu ar hyd y cyfnod yn ei gyfanrwydd, neu ddewis i weithredu'r strwythur newydd yn gyfan ar ddechrau'r cyfnod pontio. Rhaid gweithredu'r strwythur yn llawn erbyn 31 Rhagfyr 2008.

51. Wrth wneud y penderfyniad, dyma'r ffactorau sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol:

- maint unrhyw newid rhwng y strwythur presennol ac unrhyw strwythur newydd;
- natur y gwahaniaethau rhyngddynt a pha mor ymarferol byddai gweithio gyda'r strwythur newydd a'r hen strwythur ar yr un pryd gan roi ystyriaeth i'r effaith ar forâl y staff;
- ystyriaethau presennol y gyllideb ac yn y dyfodol a'r angen i reoli costau staffio, gan gynnwys diogelu costau, o fewn terfynau'r gyllideb;
- y trosiant staff a ragwelir yn ystod y cyfnod perthnasol;
- a ydyw'r ysgol yn rhannu swyddi gydag ysgolion eraill ac a ydyw'n fwriad rannu, neu geisio rhannu rhai o'r swyddi arfaethedig; ac
- unrhyw ymrwymiadau allanol sydd gan yr ysgol a allai effeithio ar y defnydd o'r staff a gyflogir, cytundebau ar brosiectau lle rhennir staff gydag ysgolion eraill mewn partneriaeth neu rwydwaith, penodiadau a rhennir megis bwrsar sy'n gweithio mewn nifer o ysgolion.

52. Bydd amseriad y gweithredu yn gydbwysedd rhwng cyflwyno'r strwythur gorau mor gynnar â phosibl; y gost; a'r angen i gynnal morâl y staff hynny lle nad yw eu swyddi presennol yn rhan o'r strwythur diwygiedig ond bod disgwyl iddynt barhau yn y swyddi hynny yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod pontio. Mae'r manteision a'r anfanteision eraill o blaid gweithredu bob yn dipyn neu weithredu'n syth hefyd yn berthnasol. Er enghraifft, efallai y gallai cyflwyno bob yn dipyn ganiatau i'r ysgolion fanteisio ar drosiant staff, gan gynnwys ymddeoliadau, wrth iddynt ddigwydd, ynghyd ag osgoi costau o flaen llaw fyddai, o bosibl, yn gysylltiedig â gweithredu'n syth. Ar y llaw arall, fe allai cyfnod estynedig o newid greu ansicrwydd a'i gwneud hi'n anodd iawn i gynnal dau strwythur, er enghraifft, y lwfansau rheoli sydd wedi'u diogelu ochr yn ochr â'r taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu, neu dîm arwain wedi'i ailstrwythuro wedi'i gyfuno â'r un blaenorol.

53. Dylai'r cynllun gweithredu, a fydd yn destun proses ymgynghori ochr yn ochr â'r strwythur newydd yn ystod tymor yr hydref, nodi'n gwbl glir yr amserlen arfaethedig a'r dulliau gweithredu arfaethedig ar gyfer rhoi'r strwythur ar waith.

Cwblhau'r strwythurau newydd

54. Cyn cyflwyno'r strwythur staffio a'r cynllun gweithredu drafft ar gyfer eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu fel sylfaen ar gyfer yr ymgynghoriad, byddai'n ddoeth i'r prifathro rannu'r cynlluniau dros dro yn anffurfiol ymhlith y staff a'r undebau llafur cydnabyddedig er mwyn sicrhau bod y corff llywodraethu yn ymwybodol o'u hymateb tebygol iddynt.

55. Os yw'r strwythur drafft yn cael ei ystyried gan y corff llywodraethu llawn, dylai staff-lywodraethwyr gael eu gwahodd yn ôl yr arfer i'r cyfarfod a gallant gymryd rhan, yn ôl yr arfer, yn y trafodaethau. Dylai unrhyw lywodraethwr, yn aelod o'r staff neu fel arall, sydd â buddiant ariannol neu unrhyw wrthdaro buddiannau arall yn y mater o dan drafodaeth ei ddatgelu ac, os yw'n angenrheidiol, adael y cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei drafod yn unol â Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999.

56. Nid yw hynny'n golygu y dylai llywodraethwyr sydd hefyd yn aelodau o'r staff gael eu hatal yn awtomatig rhag bod yn rhan o brosesau'r corff llywodraethu o ystyried y strwythur a'r cynllun gweithredu drafft ar y sail bod ganddynt fuddiant ariannol yn y mater. Mae Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999 yn amlinellu'r amgylchiadau lle ystyrir y bydd gan unigolyn fuddiant ariannol a lle na fydd ganddo fuddiant ariannol a cheir darpariaeth hefyd fel a ganlyn: nid ystyrir bod gan lywodraethwr fuddiant ariannol mewn unrhyw fater cyn belled nad yw ei fuddiant yn y mater yn fwy na buddiant y mwyafrif o'r rheini sy'n cael eu talu i weithio yn yr ysgol.

57. Er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys am y cynigion bydd angen darparu copïau ysgrifenedig o'r canlynol ar gyfer aelodau o'r corff llywodraethu:

- y strwythur staffio drafft arfaethedig, gan gynnwys y costau. Ar hyn o bryd, ni ddylid enwi unrhyw unigolion mewn unrhyw ran o'r strwythur, ond dylai'r strwythur nodi a yw'r swyddi yn newydd; a ydynt yn cynnwys nifer o gyfrifoldebau sydd eisoes yn bod; neu swydd ar gyfer paru ("gosod") cyfrifoldebau;
- disgrifiadau swydd drafft;
- strwythur a chostau presennol pob un o'r swyddi a dadansoddiad o oblygiadau'r strwythur staffio arfaethedig;
- y manylion am y goblygiadau ar gyfer cyllideb yr ysgol yn ystod yr holl gyfnod pontio;
- y cynllun gweithredu drafft.

58. Mae angen i lywodraethwyr fod yn gwbl eglur hefyd mai'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft y mae gofyn iddynt eu cymeradwyo fydd y sylfaen ar gyfer yr ymgynghoriad. Dylid nodi'n glir yn ystod y trafodaethau ac yn y cofnodion ar gyfer y cyfarfod y bydd y llywodraethwyr yn ystyried yn drylwyr unrhyw awgrymiadau gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch gwelliannau.

59. Efallai y bydd y corff llywodraethu am wneud ei ddiwygiadau ei hun i'r drafft cyn ei gymeradwyo fel sylfaen ar gyfer yr ymgynghoriad.

60. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y corff llywodraethu, dylai'r ymgynghoriad ffurfiol gyda'r staff a'r Undebau Llafur ddechrau. Dylai'r strwythur drafft, y cynllun gweithredu a'r holl ddogfennau eraill a gyflwynir i'r corff llywodraethu gael eu hanfon i'r undebau cydnabyddedig a dylent fod ar gael i'r staff, ynghyd â datganiad clir o'r amserlen ar gyfer sylwadau a nodyn i'w hatgoffa ynghylch camau nesaf yr adolygiad.

61. Gall aelodau o'r staff sy'n credu yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y cynigion

gyfarfod â'r pennaeth i'w trafod. Gall yr aelod o'r staff ddewis dod â chynrychiolydd o'r undeb gydag ef/hi i gyfarfodydd o'r fath.

62. Dylai'r pennaeth gytuno i gyfarfod yr undebau llafur gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dylai hefyd fod yn agored i aelodau unigol o'r staff ac undebau llafur cydnabyddedig gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig.

63. Dylai'r pennaeth gadw cofnod o ddyddiadau pob cyfarfod, y rheini a oedd yn bresennol, y prif bwyntiau a wnaed a'r canlyniad.

64. Dylid atgoffa'r staff a'r undebau llafur cydnabyddedig yn ysgrifenedig ynghylch dyddiad y cyfarfod y disgwylir i'r corff llywodraethu ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a mabwysiadu'r strwythur terfynol.

65. Ni ddylid ystyried bod y strwythur staffio yn derfynol hyd nes y bydd wedi ei gymeradwyo'n derfynol gan gorff llywodraethu'r ysgol. Cyn penderfynu dirprwyo'r swyddogaeth hon, dylai'r llywodraethwyr ystyried yn ofalus fanteision sicrhau bod holl aelodau'r corff llywodraethu yn cefnogi'r strwythur newydd.

66. Bydd y pennaeth yn darparu ar gyfer y corff llywodraethu y strwythur staffio a'r cynllun gweithredu drafft, a'r sylwadau a dderbyniwyd gan gynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig ffurfiol a gafwyd gan yr undebau cydnabyddedig ac eraill o ganlyniad i'r ymgynghori. Dylai'r pennaeth sôn am unrhyw ddiwygiadau a gynigiwyd o ganlyniad i'r ymgynghori, unrhyw gynigion nas cynhwyswyd a'r rhesymau dros hynny.

67. Dylai'r dogfennau gael eu dosbarthu ymysg y corff llywodraethu a dylai eu penderfyniadau gael eu cofnodi yn y ffordd arferol.

68. Dylai'r corff llywodraethu ystyried canlyniad yr ymgynghoriad yn ofalus iawn**.** Dyma'r opsiynau i'w trafod:

- mabwysiadu'r strwythur staffio a'r cynllun gweithredu ynghyd ag unrhyw rai o'r diwygiadau a gynigiwyd yn rhan o'r ymgynghoriad sy'n cael eu derbyn; neu
- cynnig diwygiadau i'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft sydd heb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

69. Os gwneir diwygiadau sydd heb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad neu os oes pryderon ynghylch rhai o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad sydd heb eu datrys, gall y llywodraethwyr benderfynu ar gyfnod pellach o ymgynghori â'r staff a'r undebau cydnabyddedig. Lle bo'r opsiwn hwn wedi'i fabwysiadu dylai'r staff a'r undebau cydnabyddedig gael eu hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch amserlen y cyfnod ymgynghori estynedig a'r materion y dylid ymdrin â hwy yn ystod y cyfnod hwnnw. Dylai'r amser a bennir ar gyfer unrhyw ymgynghoriad pellach fod yn gymesur â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu ond ni ddylai o dan unrhyw amgylchiadau fod yn llai nag wythnos.

70. Unwaith y bydd y strwythur staff a'r cynllun gweithredu wedi'u mabwysiadu gan y corff llywodraethu, gallant gael eu cynnwys fel atodiad i bolisi cyflogau'r ysgol.

Gweithredu'r strwythur staffio

71. Dylid nodi bod y canllawiau hyn wedi'u paratoi er mwyn cynorthwyo ysgolion a chyrff llywodraethu yng Nghymru â'r broses o ddrafftio a phenderfynu ar strwythur staffio ysgolion er mwyn eu galluogi i fodloni'r newidiadau i ofynion statudol ynghylch cyflogau a fydd yn dod i rym o 1 Ionawr 2006 ymlaen.

72. Mae'r broses o gyd-drafod a phenderfynu ar lefelau cyflogau penodol a phennu pwyntiau cyflog newydd i'r aelod unigol o'r staff, yn fater sy'n gysylltiedig â'r polisi cyflogau. Disgwylir i ganllawiau ynghylch cyflogau, y disgwylir iddynt hefyd ymdrin â sut i fynd ati i ddatrys anghydfodau lleol ynglŷn â chyflogau, gael eu paratoi gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'u dosbarthu i ysgolion yng Nghymru yn y dull arferol.

73. Bydd y prosesau y bydd angen i ysgol eu defnyddio wrth gyflwyno strwythur newydd yn ystod y cyfnod gweithredu yn dibynnu ar natur y newidiadau a gynigir a'r trosiant ymhlith y staff o fewn y strwythur staffio. Dylai'r ysgol gael cyngor gan ei AALl (neu ddarparwr y gwasanaeth personél/Adnoddau Dynol) ynghylch y broses berthnasol i'w defnyddio wrth roi'r newidiadau yn y cyfrifoldebau a'r contractau cyflogaeth ar waith. Bydd y penderfyniad ynghylch yr angen i ddethol staff ar gyfer swyddi ar sail neilltuedig yn ddibynnol ar i ba raddau y mae cyfrifoldebau cyfredol yr unigolyn yn cyfateb i ofynion y swydd newydd ar y pwynt gweithredu.

74. Bydd cymhlethdod y cyfnod gweithredu yn amrywio o'r naill ysgol i'r llall, yn ddibynnol ar raddfa'r newidiadau sydd i'w gwneud. Dylai penaethiaid fodd bynnag ystyried yr egwyddorion ar gyfer gweithredu'n effeithiol sydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn.

75. Rhaid i'r strwythur a'r cynllun gweithredu gael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu gan y corff llywodraethu erbyn 31 Rhagfyr 2005. Rhaid i'r broses o'u rhoi ar waith gael ei chwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2008.

76. Fel y nodwyd nid yw materion cyflogau yn cael eu trafod yn uniongyrchol yn y canllawiau. Mae cyngor ar wefan Teachernet am faterion megis cynnwys cynllun gweithredu fel atodiad i bolisi'r ysgol ar gyflogau, a'r angen i staff dderbyn mantolen gyflog blynyddol diwygiedig yn dilyn unrhyw benderfyniad a allai effeithio ar eu cyflog.

77. Cynghorir penaethiaid i roi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i'r corff llywodraethu, y staff a'r undebau cydnabyddedig am y datblygiadau diweddaraf yn ystod y cyfnod gweithredu fel y gellir rhoi ystyriaeth i'w barn ac unrhyw sylwadau eraill.

78. Bydd modd i ysgolion addasu eu strwythurau staffio er mwyn ystyried y datblygiadau newydd yn ystod y cyfnod gweithredu. Bydd angen ymgynghori ymhellach ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath.

Rhestr wirio ar arferion da

Crynodeb o'r prif bwyntiau a nodir yn y canllawiau a geir yn y rhestr wirio hon. Mae'n bosibl y bydd ysgolion am ei defnyddio ar y cyd â'r canllawiau llawn ac unrhyw ganllawiau eraill ynghylch cyflogau a gyhoeddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Gofynnir i'r penaethiaid nodi yn arbennig y gall yr adolygiad arwain at faterion yn ymwneud â chyfraith cyflogaeth ac y dylent ofyn am gyngor arbenigol fel y bo angen.

Rhannu gwybodaeth

- Dylai'r strwythur staffio a'r cynllun gweithredu drafft gael eu cyfleu yn glir i holl aelodau'r staff a'r undebau cydnabyddedig
- Dylai copïau o'r holl ddogfennau i'w cyflwyno i'r corff llywodraethu ynghyd â'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft gael eu rhoi i'r staff a'r undebau cydnabyddedig hefyd
- Dylai'r staff a'r undebau cydnabyddedig gael gwybod am yr amserlen a'r broses ar gyfer sylwadau/cyflwyniadau ysgrifenedig ynghylch y strwythur drafft
- Dylai'r strwythur staffio terfynol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig gael eu cyfleu yn glir i'r staff a'r undebau llafur cydnabyddedig

Cynnwys partïon â diddordeb

- Wrth ddiffinio'r weledigaeth ar gyfer strwythur staffio'r ysgol dylid rhoi'r sylw dyladwy i farn yr holl randdeiliaid
- Dylai'r adolygiad fynd i'r afael â'r strwythurau staffio ar gyfer yr ysgol gyfan
- Dylid gwahodd yr holl undebau llafur cydnabyddedig ar gyfer y staff i nodi enw cyswllt er mwyn derbyn gohebiaeth a gwybodaeth gan yr ysgol ynghylch y broses adolygu/ailstrwythuro
- Dylai penaethiaid ystyried hefyd y bydd angen caniatáu lle priodol a digon o amser i aelodau unigol o'r staff a'r undebau cydnabyddedig drafod ac ymgynghori ynghylch goblygiadau'r adolygiad.

Trafod ac ymgynghori

- Dylid rhoi i bob aelod o'r staff a'r undebau llafur cydnabyddedig y cyfle i fod yn rhan o'r trafod a'r ymgynghori ar adegau priodol o'r adolygiad
- Ni ddylai'r prosesau ymgynghori roi pwysau afresymol ar staff yr ysgol o ran llwyth gwaith
- Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu roi'r sylw dyladwy i ganlyniadau'r broses ymgynghori
- Lle bo angen, dylid cynnal trafodaethau pellach i sicrhau mwy o eglurder ynghylch canlyniadau

Rheoli'r broses mewn modd sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw

- Dylai pob cam o'r adolygiad gael ei gynnal mewn modd sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw
- Dylid cytuno ar gyfnodau ymgynghori o fewn y broses adolygu gyda'r staff a'r undebau llafur a dylid cyfleu hynny'n glir i bawb
- Dylid sefydlu'r gweithdrefnau ymgynghori a chytuno arnynt gyda staff yr ysgol gyfan a'r undebau cydnabyddedig
- Dylai'r amserlenni ymgynghori gael eu seilio ar ddiwrnodau gwaith. Ni ddylai gynnwys penwythnosau na gwyliau ysgol.
- Dylai'r corff llywodraethu gael gwybod am yr holl baratoadau ar gyfer yr adolygiad ac unrhyw ddatblygiadau pellach

- Dylid bod yn agored ac yn eglur ynghylch rôl y corff llywodraethu wrth gymeradwyo'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft
- Dylai'r cyflwyniad terfynol gerbron y corff llywodraethu gynnwys prif ganlyniadau'r broses ymgynghori gan gynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig ffurfiol gan yr undebau cydnabyddedig neu eraill. Dylai'r pennaeth sôn am unrhyw ddiwygiadau a gynigir o ganlyniad i'r ymgynghori, unrhyw gynigion nas cynhwyswyd a'r rhesymau dros hynny

Ystyriaethau ymarferol

- Dylai cyfarfodydd o'r corff llywodraethu gael eu trefnu i gymeradwyo'r strwythur staffio drafft a therfynol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig
- Yn rhan o'r adolygiad, bydd angen i benaethiaid asesu'r hyn a wnaed gan yr ysgol o ran gweithredu'r newidiadau i gontractau athrawon a'r agenda ehangach o ailfodelu a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys.

Dogfennau ategol

- Dylid darllen y dogfennau ategol canlynol ar y cyd â'r canllawiau hyn:
    - Canllawiau statudol diwygiedig ynghylch y newidiadau i gyflogau 2005 (http://www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=8486)
    - Gorchmynion Cyflogau Ebrill a Mai 2005 (www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/2005)
    - Nodiadau esboniadol diwygiedig (http://www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=8485)
    - Polisi cyflogau enghreifftiol (www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=7478)
    - Datganiad enghreifftiol ynghylch cyflogau (http://www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/Model_Pay_Statements/)
    - Nodyn cyfarwyddyd ar ddiogelu (http://www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=8487)
    - Nodyn cyfarwyddyd ar y Cynllun Athrawon Rhagorol (http://www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/Excellent_Teacher_Scheme/)
    - Nodyn cyfarwyddyd ar Athrawon Uwch-Sgiliau (http://www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=8484)
    - Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 (Cyswllt)

Gwybodaeth ychwanegol

- Ffynonellau eraill o wybodaeth a allai fod o fudd i benaethiaid:
    - Cyllideb yr ysgol gyfan (y gyllideb gyfredol a'r gyllideb arfaethedig)
    - Cynllun Gwella'r Ysgol
    - Dogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol 2004 (www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/2004/Pay_Publication_2004), fel y'i diwygiwyd gan y Gorchmynion Cyflogau 2005 (http://www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/pay/2005/)
    - Grwp Monitro Cytundeb y Gweithlu Nodyn 1 (www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=7361)
    - Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Grwp Gwobrwyon a Chymhellion (RIG) ynghylch datblygiad cyflog ar sail perfformiad (www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=6624) a lwfansau rheoli (www.teachernet.gov.uk/docbank/index.cfm?id=6602)

- Canllawiau gan Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu, yn arbennig
    - *Invigilation – A Resource Pack* (www.remodelling.org/invigilation_pack.php)
    - *Remodelling Cover - A Resource Pack* (www.remodelling.org/resource_pack.php)
    - *Planning, Preparation and Assessment - A Resource Pack* (www.remodelling.org/ppa_pack.php)
- Advanced Skills Teachers: Promoting Excellence (www.teachernet.gov.uk/ast)
- Strwythurau gyrfaoedd a ddiffiniwyd yn lleol ar gyfer staff cymorth ysgolion
- Canllawiau cenedlaethol gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol a geir yn *School Support Staff the Way Forward*(www.lg-employers.gov.uk/publications/fullpublications/support.html)
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru **(**www.learning.wales.gov.uk**)**
- Y safonau cenedlaethol ar gyfer arweinwyr pwnc yn Lloegr
- (www.tta.gov.uk/php/read.php?sectionid=103&articleid=519
- Y safonau cenedlaethol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (www.tta.gov.uk/php/read.php?sectionid=1&articleid=2150**)**
- Y safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr addysgu/ystafell ddosbarth(www.lg-employers.gov.uk/skills/teaching/downloads.htm)

Rhestr wirio ar gyfer Llywodraethwyr - Cwestiynau Allweddol

Mae trefn y rhestr wirio hon yn dilyn yr hyn sydd yn y Canllawiau: *Adolygu Strwythurau Staffio Ysgolion*.

Y camau cyntaf

Bydd angen i Gadeirydd y Llywodraethwyr sicrhau fel a ganlyn:

- bod y Pennaeth yn pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod cyntaf y llywodraethwyr er mwyn ystyried y strwythur a'r cynllun gweithredu drafft

- bod y dyddiad a drefnwyd/a gynigiwyd ar gyfer y cyfarfod cyntaf yn caniatáu digon o amser i'r corff llywodraethu gyfarfod eto er mwyn cwblhau'r strwythur staffio a'i roi ar wait

Yn y cyfarfod cyntaf

- Sicrhau bod y pennaeth wedi ysgrifennu at yr holl undebau a phob aelod o'r staff

- A sicrhawyd cytundeb ynghylch y broses o gynnal yr adolygiad?

- A yw'r prif ddogfennau a nodwyd yn y canllawiau ar gael i'r llywodraethwyr eu hystyried?

- A lwyddwyd i sefydlu egwyddorion clir ar gyfer yr adolygiad?

- A roddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

  cynllun gwella'r ysgol a'r blaenoriaethau a'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol?

  i ba raddau y mae'r newidiadau i'r contract sy'n deillio o'r Cytundeb Llwyth Gwaith wedi'u gweithredu. (A yw'r newidiadau i'r contract ar gyfer cam 1 a cham 2 wedi'u gweithredu ac a oes cynllun clir i roi cam 3 ar waith erbyn mis Medi 2005

  yr holl swyddogaethau a chyfrifoldebau yn yr ysgol?

Y strwythur drafft

- Beth yw'r sail resymegol dros ddethol swyddi o'r holl ddewis o opsiynau a nodwyd yn y canllawiau hyn?

- Beth yw goblygiadau newid y strwythur cyfredol o ran dosbarthu swyddi, cfrifoldebau, nifer y swyddi a'r gost i gyllideb yr ysgol?

- Beth yw'r goblygiadau o ran swyddogaethau staff cymorth? A fydd angen cyflogi staff cymorth ychwanegol a/neu a fydd disgrifiadau swydd, cyflogau a graddfeydd y staff presennol yn cael eu newid yn unol â'r broses yn Nodyn 1 Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu?

Cynllun Gweithredu Drafft

- A ragdybir yn y cynllun y bydd y newidiadau yn cael eu cyflwyno ar unwaith neu yn

raddol?

- A roddwyd ystyriaeth i'r manteision a'r anfanteision?

- Sut y mae'r cynllun gweithredu yn effeithio ar gyllideb yr ysgol drwy gydol y cyfnod pontio? A yw'n hawdd ei reoli?

- A yw'r swyddi yn y strwythur staffio wedi'u nodi'n glir fel cyfrifoldebau newydd, cyfrifoldebau wedi'u cyfuno neu eu cydweddu? Pa broses y mae'r pennaeth yn bwriadu ei defnyddio i lenwi swyddi newydd?

Disgrifiadau Swydd Drafft

- A yw'r modd y cafodd cyfrifoldebau eu rhannu rhwng y swyddi o fewn y strwythur yn canolbwyntio ar yr addysgu a'r dysgu?

- A yw'r holl daliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu yn bodloni'r meini prawf a'r ffactorau?

- A yw'r llywodraethwyr yn fodlon y rhoddwyd pwysoliad a gwerth cyfatebol wrth ddosbarthu cyfrifoldebau newydd o fewn y strwythur newydd?

- A yw'r atebolrwydd am y cyfrifoldebau a nodwyd wedi'i amlinellu'n briodol?

- A yw'r corff llywodraethu yn fodlon bod y strwythur y mae wedi cytuno y dylid ei weithredu yn gyson â darpariaethau deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys cyfle cyfartal?

Cyfarfod pellach

- A ddilynwyd y camau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ymgynghoriad?

- Pa newidiadau a wnaed i'r strwythur a'r cynllun gweithredu drafft o ganlyniad i'r ymgynghoriad?

- A oes unrhyw bryderon a godwyd gan yr undebau a'r staff yn ystod yr ymgynghoriad nad ymdriniwyd â hwy?

- A yw'r holl ymatebion ysgrifenedig i'r strwythur drafft, y cynllun gweithredu a'r disgrifiadau swydd gan yr undebau a'r staff wedi'u darparu ar gyfer y llywodraethwyr?

- A yw'r llywodraethwyr wedi penderfynu gwneud newidiadau i'r drafft? (Lle bo'r strwythur drafft, y cynllun gweithredu a'r disgrifiadau swydd yn cael eu newid yn y cyfarfod, bydd angen i'r corff llywodraethu ymgynghori ymhellach cyn penderfynu ar y ffurfiau terfynol.)

- A yw'r corff llywodraethu wedi penderfynu y dylid ymgynghori ymhellach ac, os yw, a bennwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod pellach o'r llywodraethwyr a fydd yn caniatáu i'r strwythur a'r cynllun gweithredu gael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2005, sef y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r broses?

Cwblhau'r strwythur newydd

- A gytunwyd ar broses arbennig ar gyfer cyhoeddi'r strwythur a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arnynt?

- A yw'r corff llywodraethu wedi ystyried y goblygiadau o ran polisi cyflogau'r ysgol?

- A yw'r corff llywodraethu yn fodlon â'r canlynol:

  bod yr aelodau hynny o'r staff y bydd y darpariaethau diogelu yn gymwys ar eu cyfer wedi'u nodi'n glir?

  bod trefniadau priodol yn eu lle i roi i bob aelod o'r staff y datganiad cyflog gofynnol, a fydd yn cynnwys manylion am unrhyw ddarpariaethau diogelu, erbyn 31 Ionawr 2006?

  bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y corff llywodraethu yn medru cadw golwg ar hynt yr holl agweddau ar weithredu'r newidiadau?